# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Ionawr 2017

Amser: 09.00 - 12.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3842

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Christopher Warner (Clerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nodwyd bod Gareth Bennett AC a Rhianon Passmore AC wedi ymddiheuro am eu habsenoldeb.

## 2 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 7

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Dr Mike Chick, Prifysgol De Cymru

## 3 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 8

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Alicja Zalesinska, Cyfarwyddwr Tai Pawb

3.2 Cytunodd Tai Pawb i ddarparu:

- Manylion am effaith archwiliadau Hawl i Rentu ar y rhai y gwrthodwyd rhoi lloches iddynt ac nad yw arian cyhoeddus ar gael iddynt;
- Gwybodaeth am y rhesymau dros y nifer gynyddol o geiswyr lloches sy'n cael eu troi allan o'u llety yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi i'w cais am statws ffoaduriaid gael ei wrthod.

## 4 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 9

4.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Canon Aled Edwards, Alltudion ar Waith
- Faruk Ogut, Cydgysylltydd y Prosiect Adleoli, Resettlement Project Co-ordinator, Alltudion ar Waith

4.2 Cytunodd Alltudion ar Waith i ddarparu:

- Gwybodaeth am brosiect mentora sy'n cael ei redeg gan Sova sy'n rhoi cyfle i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ddweud eu hanes mewn amgylchedd diogel;
- Gwybodaeth am drafodaethau Partneriaeth Mudo Strategol Cymru yn ymwneud â thrin ffoaduriaid fel pobl eraill sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a'u gorfodi i symud ymlaen ar ôl 56 o ddiwrnodau.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gohebiaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chraffu ar yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2015-16

5.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chraffu ar adroddiad blynyddol 2015-16

### 5.3 Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Oxfam ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches

5.3 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan Oxfam mewn perthynas â ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

### 5.8 Gohebiaeth gan Cytûn mewn perthynas ag ymgynghoriad 'Trafod Cymunedau' Llywodraeth Cymru

5.8 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Cytun mewn perthynas ag ymgyghoriad 'Trafod Cymunedau' Llywodraeth Cymru.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru - trafod y dystiolaeth a gafwyd yn ystod eitemau 2, 3 a 4

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth o dan eitemau 2,3 a 4